Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Rhan 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

# Adrannau 5-8

## Dyletswyddau mewn perthynas â llesiant a dyletswyddau hollgyffredinol eraill

Beth mae'n rhaid i'r cod ei wneud:

- Cynorthwyo awdurdodau lleol i hyrwyddo llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt
- Cynorthwyo awdurdodau lleol i sicrhau bod anghenion llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn llywio eu swyddogaethau ehangach
- Amlygu'r canlyniadau llesiant sydd i'w cyflawni drwy ddatganiad sy'n ymwneud â llesiant sy'n nodi canlyniadau a mesurau y gellir asesu llwyddiant y canlyniadau hynny drwy gyfeirio atynt

# Asesiad o'r Boblogaeth

Mae **Adran 14** o'r Ddeddf yn nodi y dylai awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gydweithio i asesu:

- I ba raddau y mae pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth yn y boblogaeth leol;
- I ba raddau y mae yna ofalwyr y mae angen cymorth arnynt;
- I ba raddau y mae'r anghenion hynny yn cael eu diwallu;
- Ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion gofal a chymorth a nodwyd;
- Ystod a lefel y gwasanaethau ataliol y mae eu hangen.

# Rheoliadau

Bydd y rheoliadau o dan **Adran 14** yn nodi'r gofynion ar gyfer:

- Cyhoeddi a chymeradwyo'r asesiad o'r boblogaeth;
- Amserlenni;
- Adolygu;
- Ymgysylltu â Dinasyddion a Darparwyr Gwasanaethau

Mae **Adran 166** y Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol cael trefniadau partneriaeth penodedig. Cynigiwn fod **ymarfer asesu ar y cyd** yn cael ei gynnal ym mhob ardal BILl gyda'r awdurdodau lleol yn yr ardal honno.

# Cod Ymarfer

Mae'r Cod Ymarfer yn adeiladu ar y rheoliadau ac yn darparu ystod o wybodaeth am ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran sut y cynhelir asesiad o'r boblogaeth a sut y bydd y trefniadau partneriaeth yn gweithredu.

**Asesiad o'r boblogaeth:**

- Strwythur Adroddiad yr Asesiad o'r Boblogaeth:
  - (i) asesu anghenion; a
  - (ii) ystod a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol
- Ffynonellau gwybodaeth;
- Cyflwyno canfyddiadau'r asesiad o dan themâu craidd

**Trefniant partneriaeth:**

- Cyfrifoldebau'r corff cydgysylltu arweiniol

# Gwasanaethau Ataliol

Mae **Adran 15** o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu ystod o wasanaethau ataliol i gyflawni dibenion amrywiol, gan gynnwys:

- Cyfrannu at atal neu oedi datblygiad anghenion pobl am ofal a chymorth;
- Lleihau’r anghenion am ofal a chymorth i bobl y mae arnynt anghenion o’r fath;
- Cyfrannu at atal pobl rhag dioddef camdriniaeth neu esgeulustod;

Mae'r cod ymarfer yn nodi'r gofynion ar awdurdod lleol i ddarparu ystod o wasanaethau ataliol. Mae'n nodi bod gwasanaethau ataliol yn cynnwys llawer o fathau gwahanol o wasanaethau ac mae'n rhoi canllawiau cyffredinol gan gynnwys mewn perthynas â:

- Sicrhau bod diwylliant o ddarparu gwasanaethau ataliol yn bodoli yn yr awdurdod lleol;
- Egwyddorion cyffredinol o ran darparu gwasanaethau ataliol;
- Nodi'r rhai a allai gael budd o wasanaethau ataliol; ac
- Ailalluogi.

**Mae atal yn thema sy'n rhedeg drwy'r Ddeddf a dylai fod yn sail i bob agwedd ar ddarparu gofal a chymorth.**

# Adran 16

## Dyletswydd i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy’n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a’r trydydd sector

Yr hyn y mae'n rhaid i'r rheoliadau a'r cod ei wneud:

- Trin pobl fel partneriaid cyfartal wrth ddylunio eu gofal a'u cymorth *(cydgynhyrchu)*
- Cynorthwyo cyfranogiad unigolion; mwy o lais a rheolaeth
- Cynorthwyo'r agenda llesiant
- Galluogi amrywiaeth o ran darparu ac arloesedd, i hyrwyddo ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau ataliol
- Hyrwyddo trefniadau a sefydliadau a chanddynt werth ychwanegol neu fanteision cymdeithasol, wrth ddarparu gofal a chymorth i unigolion

# Adran 17

## Darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy

Dyletswyddau mewn perthynas â darparu'r canlynol i bobl:

- Gwybodaeth a Chyngor sy’n ymwneud â gofal a chymorth;
- Cymorth i gael mynediad i ofal a chymorth

Mae'r cod ymarfer yn cwmpasu:

- diffiniadau
- asesu
- cofnodi gwybodaeth reoli
- hygyrchedd
- gwasanaethau integredig
- goblygiadau i'r gweithlu
- llywodraethu ac atebolrwydd
- safonau cyflenwi gwasanaethau cenedlaethol